

# Llawlyfr Gwobr John Muir



JOHN  
MUIR  
TRUST

# Cynnwys

04 Ymddiriedolaeth John Muir

05 Gwobr John Muir

06 Sut i gymryd rhan

08 Sut i fod yn ddarparwr

09 Cyfrifoldebau'r darparwyr

10 Meini prawf Gwarcheidwad Mannau Gwyllt

12 Y Pedair Her

16 Sut i gychwyn arni

18 Cynhwysiant a'r Wobr John Muir

19 Ble i ganfod mwy o wybodaeth ac ysbrydoliaeth





## Croeso

Diolch am ddewis y Wobr John Muir.

Nod y Wobr yw annog pobl o bob cefndir i gysylltu gyda, mwynhau a gofalu am fannau gwyllt.

Bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn dysgu am nodweddion arbennig mannau gwyllt a thrwy'r Wobr bydd cyfle iddyn nhw Ddarganfod, Archwilio, Amddiffyn a Rhannu eu profiadau o fannau gwyllt.

Rydym yn gobeithio'n arw y byddwch chi'n mwynhau arwain y Wobr John Muir.

Ffotograffiaeth: Philip Hatcher-Moore  
Lluniau: calumma.design  
Dyluniad: Inkcap Design

Mae Ymddiriedolaeth John Muir yn gwmni elusennol o'r Alban sy'n gyfyngedig drwy warant. (Rhif Elusen, SC002061 Rhif Cwmni, SC081620).  
Swyddfa gofrestredig: Tower House, Station Road, Pitlochry, PH16 5AN

# Ymddiriedolaeth John Muir

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth John Muir ym 1983 ac mae'n llais blaenllaw ar ran mannau gwyllt y DU.

Rydym yn gofalu am rai o fannau gwyllt hyfrytaf yr Alban, gan gynnwys Ben Nevis, Knoydart, Sandwood ac ardaloedd ar Skye. At hyn, rydym yn cydweithio i reoli tir yn Lloegr ger Helvellyn yn Ardal y Llynnoedd a'r Charterhouse yn Coventry.

Rydym yn diffinio mannau gwyllt fel ardaloedd ble mae modd i brosesau naturiol ffynnu, p'un ai ydyn nhw'n fannau gwyrdd trefol, parciau cenedlaethol, afonydd, mynyddoedd neu goetiroedd.

[johnmuirtrust.org](http://johnmuirtrust.org)

# Gwobr John Muir

Mae'r Wobr John Muir yn gynllun gwobrwyo amgylcheddol sy'n annog pobl i gysylltu gyda, mwynhau a gofalu am fannau gwyllt. Ers ei lansio ym 1997, mae dros hanner miliwn o bobl wedi cwblhau Gwobr.

Mae'r Wobr John Muir yn cydweithio gyda chi gan eich helpu i barhau gyda'ch ymdrechion o ran mannau gwyllt. P'un ai ydy eich unigolion sy'n cymryd rhan yn barod i gychwyn arni gyda mannau gwyllt neu eisoes yn mwynhau treulio'u hamser mewn mannau gwyllt, mae cymhwyso fel Gwarcheidwad Mannau Gwyllt yn ffordd wych o feithrin eu cysylltiad. Mae'n cydnabod eu cyflawniad o ran amddiffyn, adfer a diogelu mannau gwyllt.

## Ethos Y Wobr John Muir

Mae'r Wobr yn cynorthwyo pobl i gysylltu gyda, mwynhau a gofalu am fannau gwyllt drwy gynllun â strwythur iddi ond mae modd ei haddasu'n ogystal.

- ✓ Mae ar gyfer pobl o bob cefndir – grwpiau, teuluoedd ac unigolion
- ✓ Mae'n meithrin cysylltiadau rhwng pobl a mannau gwyllt.
- ✓ Mae'n anghystadleuol, yn gynhwysol ac yn hygyrch.

Mae'r Wobr John Muir yn eich herio i:



# Sut i gymryd rhan

Mae croeso i unrhyw un gymryd rhan, sy'n gallu deall a bodloni meini prawf y Wobr John Muir. Mae hyn yn cynnwys pobl o bob rhan o'r gymdeithas.

Yn ein profiad ni, mae hyn fel arfer yn golygu pobl sy'n gweithio gyda dosbarthiadau hŷn ysgolion cynradd ac uwch.

Nid yw'r Wobr John Muir yn addas ar gyfer grwpiau lefel meithrin neu ddosbarthiadau iau ysgolion cynradd.

Mae croeso i oedolion – yn wir rydym yn eu hannog – i gymryd rhan hefyd, ar y cyd â phobl ifanc, myfyrwyr, neu yn eu grwpiau eu hunain.

Gallwch gymryd rhan drwy fod yn rhan o fudiad, neu fel unigolyn neu grŵp bach annibynnol.



## Manteision y Wobr John Muir

1

Mae'n annog antur ac archwilio.

2

Mae'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a phersonol a chyfrifoldeb.

3

Mae'n cynnig cyfleoedd i gysylltu gyda mannau gwyllt, mwynhad a chreadigrwydd.

Mae tîm y Wobr John Muir yn cynnig y canlynol i Ddarparwyr (mudiadau neu grwpiau sy'n cyflawni'r Wobr yn llwyddiannus):

- Cymorth, arweiniad a chyngor ar gyflawni'r Wobr John Muir.
- Deunyddiau ac adnoddau hyrwyddo
- Tystysgrifau digidol ar gyfer yr holl unigolion sy'n cyflawni pob Gwobr yn llwyddiannus.

- Tystysgrif flynyddol i gydnabod statws Darparwr Gwobr John Muir.
- Cyfleoedd i fanteisio ar gyrsiau hyfforddiant a digwyddiadau'r Wobr John Muir (gallai fod costau ynghlwm â'r rhain).



4

Mae'n cynnig ffordd o ymdrin gyda phynciau y gallai rhai eu hystyried yn frawychus neu'n anhygyrch – cynaliadwyedd, bioamrywiaeth, dinasyddiaeth, yr amgylchedd.

5

Gellir ei ddefnyddio i gysylltu profiadau gyda mannau gwyllt ag ystod o themâu – y cwricwlwm, ffordd o fyw iach, gwaith ieuencid, cyflogadwyedd, llesiant.

6

Mae'n hygyrch – gellir ei ddefnyddio'n rhwydd gan y rheiny sydd ddim yn arbenigwyr awyr agored.

7

Mae'n gynhwysol – nid oes rhaid i amgylchiadau pobl eu rhwystro rhag mentro i fannau gwyllt.

8

Mae'n help i ofalu am eich man gwyllt.

# Sut i fod yn Ddarparwr Gwobr

Rydym yn galw'r grwpiau neu'r mudiadau hynny sydd wedi'u cymeradwyo i gyflawni'r Wobr yn 'Ddarparwyr'. I ennill cymeradwyaeth, mae'n rhaid i arweinwyr gyflwyno Ffurflen Gais sy'n disgrifio'r grŵp a sut caiff y Wobr ei chyflawni. Bydd ein cymeradwyaeth yn ffurfio cytundeb rhwng Ddarparwr ac Ymddiriedolaeth John Muir.



## Llwybr Ddarparwyr



Meddu ar Aelodaeth Grŵp dilys gydag Ymddiriedolaeth John Muir.

Ewch i [johnmuirtrust.org/join](http://johnmuirtrust.org/join) i wybod mwy.



Ffurflen Gais

Cyflwynwch eich Ffurflen Gais i ymgeisio ar gyfer y Wobr John Muir.



Adolygiad

Byddwn yn adolygu'ch ffurflen ac, os ydych chi'n bodloni'r meini prawf, byddwn yn cymeradwyo eich cais.



Cychwyn eich gweithgareddau

Unwaith y byddwn ni wedi cymeradwyo eich Ffurflen Gais, gallwch gychwyn arni gydag eich gweithgareddau.



Ffurflen Adolygu

Pan fyddwch chi wedi cwblhau eich gweithgareddau, cyflwynwch eich Ffurflen Adolygu.



Adolygiad o'r Wobr

Byddwn yn adolygu eich ffurflen ac, os yw'r meini prawf wedi'i fodloni, yn cymeradwyo eich Gwobr/au.



Cyflwyno Tystysgrifau

Byddwn yn llunio ac yn anfon eich tystysgrifau digidol.



Dathlu gydag eich grŵp

Cyflwyno'r tystysgrifau i'ch grŵp.



## Cyfrifoldebau'r Darparwyr

I fod yn Ddarparwr Gwobr, bydd gofyn ichi fodloni'r canlynol:

- Gofalu bod arweinwyr eich grŵp yn 18 oed o leiaf
- Meddu ar Aelodaeth Grŵp John Muir
- Hyrwyddo ethos Ymddiriedolaeth John Muir (tudalen 4-5)
- Cymryd eich amser i ddeall y Wobr John Muir a'r meini prawf yn gyfan gwbl
- Cynllunio gweithgareddau i sicrhau gallai pawb sy'n cymryd rhan fodloni'r meini prawf a'r lleiafswm ymrwymiad amser
- Defnyddio prosesau, dogfennau ac amserlenni'r Wobr John Muir er mwyn sicrhau proses cofrestru a chadarnhau effeithiol, a chadw cofnodion perthnasol.
- Defnyddio adnoddau a deunyddiau hyfforddiant y Wobr John Muir, cynnig gwybodaeth, arweiniad a chyfleoedd hyfforddiant addas i'ch staff / gwirfoddolwyr.
- Sicrhau cyfathrebu prydlon a manwl gywir gyda staff y Wobr John Muir (dros e-bost/ y ffôn / MS Teams).
- Sicrhau bod mesurau lechyd a Diogelwch digonol ar waith, a bod mudiadau'n meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a damweiniau personol priodol.
- Rhannu arfer da gyda chydweithwyr a gyda mudiadau eraill, fel sy'n briodol.

Unwaith ichi gyflawni'r Wobr yn llwyddiannus i o leiaf un grŵp a derbyn tystysgrifau cwblhau, gallai'r Darparwyr ymgeisio am dystysgrif Darparwr Gwobr flynyddol i gydnabod eu cyflawniad.

# Meini prawf Gwarcheidwad Mannau Gwyllt

Mae'r Wobr John Muir yn cydweithio gyda chi gan eich helpu i barhau gyda'ch ymdrechion o ran mannau gwyllt. P'un ai ydy eich unigolion sy'n cymryd rhan yn barod i gychwyn arni gyda mannau gwyllt neu eisoes yn mwynhau treulio'u hamser mewn mannau gwyllt ac yn eu hamddiffyn, mae'r Wobr yn cydnabod eu cyflawniad tuag at warchod, adfer a diogelu mannau gwyllt.

Byddai cymhwyso fel Gwarcheidwad Mannau Gwyllt yn ffordd wych o feithrin eich perthynas gyda mannau gwyllt. Mae'n canolbwyntio ar ennill ymwybyddiaeth o ba mor arbennig ydyn nhw a sut gallwch chi eu helpu.

I gymhwyso fel Gwarcheidwad Mannau Gwyllt John Muir, mae'n rhaid i bob unigolyn sy'n cymryd rhan wneud y canlynol:

**a) Treulio 25 awr neu fwy yn cwblhau eu Gwobr John Muir** – gan ofalu bod o leiaf 25 y cant o'r amser hwnnw wedi'i dreulio ar weithgaredd Cadwraeth.

**b) Chwarae rhan weithgar ym mhrosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio'u Gwobr.** Mae hyn yn helpu meithrin ymdeimlad o asiantaeth a chred y gallan nhw wneud gwahaniaeth y tu hwnt i'r Wobr.

Bydd y lefel o ymrwymiad yn wahanol o un grŵp i'r llall, felly mae yna hyblygrwydd o ran sut caiff hyn ei gyflawni. Gallai bodloni'r meini prawf hwn amrywio o gynnig dewis rhwng dau weithgaredd i – pan fo'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gallu – rhoi cyfle iddyn nhw gynllunio gweithgaredd eu Gwobr ar eu liwt eu hunain.

**c) Datblygu ymwybyddiaeth o berson ysbrydoledig.** Dylai'r person hwn fod yn amgylcheddwr, yn y gorffennol neu'r presennol, neu rywun sy'n gwneud gwahaniaeth i fannau gwyllt yn lleol.

Mae Ymddiriedolaeth John Muir wedi'i hysbrydoli gan John Muir (1838-1914), arloeswr a anwyd yn yr Alban sy'n aml yn cael ei ystyried fel sylfaenydd y mudiad cadwraeth fodern. I ddysgu mwy am John Muir a'i gyfraniad, ewch i'n gwefan. Er y gallai rhai pobl gael eu hysbrydoli gan waddol anhygoel John Muir, mae'n bosibl y byddai rhai o'r unigolion sy'n cymryd rhan yn y Wobr yn gallu uniaethu mwy gyda ffigyrau cyfoes.

**ch) Cwblhau'r Pedair Her**





# Y Pedair Her

## Darganfod

Darganfod man gwyllt drwy weithgareddau cysylltu gyda natur a dwyn i ystyriaeth beth yw'r nodweddion sy'n dangos ei fod yn wyllt, pa mor wyllt ydy o a sut mae'n gwneud ichi deimlo. Pam ei fod yn bwysig? Fasa modd iddo fod yn fwy gwyllt? Bwrw golwg ar fan gwyllt gan sylwi ar ei rinweddau (e.e., prosesau naturiol, nodweddion gweledol, seinwedd, dylanwad dynol, anifeiliaid a phlanhigion, cysylltedd / pellenigrwydd).

Mae'r Her Darganfod yn ymwneud ag ymdrochi yn eich man gwyllt, ei fwynhau gan ddefnyddio'ch synhwyrâu a sylwi ar y pethau sydd yno, gan gydnabod ei rinweddau arbennig. Wrth ichi dreulio amser yno, meddyliwch am eich perthynas gyda'r lle a'r pethau sy'n byw yno.

Cymrwch eich amser yn sylwi ar eich man gwyllt gydag ymdeimlad o ryfeddod – bwrw golwg arno yn ei gyfanrwydd. Os ydych chi wedi bod o'r blaen, edrychwch ar eich lle o safbwynt gwahanol. Sut mae eich man gwyllt yn gweddu i'r ardal o'i amgylch?

Dylai'r man rydych yn ei ddewis fod yn le yn yr awyr agored lle gallai natur ffynnu. Gallai fod o unrhyw faint ond fe ddylai fod yn rywle y gallwch chi gyflawni o leiaf chwe awr o weithgarwch cadwraeth yno a chofiwch ofalu eich bod yn derbyn caniatâd y tîrfeddiannwr i wneud hynny.



Darganfod man gwyllt

## Archwilio

Archwilio eich man gwyllt, dysgu mwy a'i ddeall yn well. Mwynhau ystod o wahanol weithgareddau gydag ymdeimlad o antur a chwilfrydedd. Dysgu mwy am eich man gwyllt – sut mae'n fanteisiol i fyd natur, sut mae'n fanteisiol i fodau dynol, beth allai fygwth ei gadw'n wyllt? Ewch ati i ystyried beth allwch chi ei wneud i helpu ei amddiffyn neu ei adfer.

Mae'r Her Archwilio yn ymwneud â chymryd camau ymarferol i ddysgu am a deall eich man gwyllt; mwynhau treulio amser yno a meithrin cysylltiad dyfnach ag o. Adnabod y rhywogaethau sy'n byw yno'n barod a sut maen nhw'n cyfrannu at ei ecosystem. Bwrw golwg ar eu dylanwadau cadarnhaol a negyddol ar eich man gwyllt. Sut mae wedi newid dros amser; ystyried yr hanes, daearyddiaeth a'r ecoleg. Datblygu'r sgiliau a hybu'r hyder i fentro i fannau gwyllt a bod yn ddiogel ac yn barchus.



Rydym yn diffinio mannau gwyllt fel ardaloedd ble mae modd i brosesau naturiol ffynnu, p'un ai ydyn nhw'n fannau gwyrrdd trefol, parciau cenedlaethol, afonydd, mynyddoedd neu goetiroedd.

Mynd ati i'w Archwilio

## Cadwraeth

Mae'n bryd bwrw iddi i ddiogelu neu adfer eich man gwyllt. Gallwch gyflawni gweithgareddau cadwraeth ymarferol, codi ymwybyddiaeth neu gymryd camau gweithredu eraill i helpu amddiffyn mannau gwyllt. Ewch ati i ystyried hirhoedledd eich gweithredoedd – sut allwch chi gynnal y buddion y tu hwnt i weithgareddau eich Gwobr? Drwy gymryd rhan yn yr Her Cadwraeth, byddwch yn cynorthwyo Ymddiriedolaeth John Muir i ofalu am fannau gwyllt ledled y DU.

Mae'r Her Cadwraeth yn ymwneud â gofalu am eich man gwyllt. Mae'n bwysig ystyried sut bydd eich gweithgarwch yn cael effaith gadarnhaol. Eich nod ddylai fod i amddiffyn, diogelu ac adfer mannau gwyllt er mwyn i brosesau naturiol allu ffynnu.

Ar brydiau, gallai ymdrechion sydd â bwriadau da wneud rhywle'n llai gwyllt; gallai eich cynlluniau fod o fudd i fodau dynol ond gallai gael effeithiau negyddol nad oes modd eu rhagweld ar eich man gwyllt.

Os ydych chi'n ychwanegu nodweddion artiffisial (fel blychau adar, gwestai trychfilod, cartrefi i ddraenogod neu borthwyr) oherwydd bod diffyg prosesau naturiol, meddyliwch sut gallwch chi annog y prosesau naturiol hynny i ddychwelyd dros amser. Drwy wneud hyn, gallai eich man gwyllt ffynnu gyda lefelau is o ymyrraeth gan fodau dynol yn y dyfodol.

Cwestiynau i'w dwyn i ystyriaeth:

- Sut bydd eich gweithgareddau'n annog adfer, amddiffyn a/neu ddiogelu eich man gwyllt dewisol?
- Sut bydd eich gweithgareddau yn galluogi i brosesau naturiol ffynnu?
- Sut bydd eich gweithgarwch yn fanteisiol i'ch man gwyllt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?



## Rhannu

Rhannu beth rydych chi wedi'i gyflawni i ysbrydoli eraill i ofalu am fannau gwyllt. Dweud wrth bobl pam fod eich man gwyllt chi yn bwysig ac yn arbennig ichi, a sut gallan nhw helpu i ofalu amdano.

Mae'r Her Rhannu yn ymwneud ag ymfalchïo yn yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni ac ysbrydoli eraill i weithredu ar ran mannau gwyllt hefyd. Ewch ati i fyfyrïo am yr hyn rydych chi wedi'i brofi, sut mae eich gweithgareddau wedi gwneud ichi deimlo, beth rydych chi wedi'i ddysgu a beth rydych chi wedi'i gyflawni.

Ewch ati i ystyried pam fod mannau gwyllt yn bwysig a sut rydych chi wedi helpu eich man dewisol; pa effaith ydych chi'n meddwl y mae hyn wedi'i gael ar fannau gwyllt yn eu cyfanrwydd? Pa weithredoedd / gweithgareddau wnewch chi eu cyflawni i gefnogi mannau gwyllt y tu hwnt i'ch Gwobr?

Pwy hoffech chi rannu hyn i gyd gyda nhw? Rhowch wybod iddyn nhw! I ddathlu eich cyflawniad, trafod eich anturiaethau a phrofiadau mewn mannau gwyllt. Meddyliwch am sut yr hoffech chi rannu eich ymdrechion – rhowch eich sgiliau creadigol ar waith!



# Sut i gychwyn arni

## 1. Deall meini prawf y Wobr

Ewch ati i adolygu meini prawf y Wobr John Muir ac ystyriwch y cyfleoedd i'w bodloni yn eich mudiad\*\*

## 2. Ymaelodi

Os ydy eich mudiad yn bwriadu cyflawni'r Wobr John Muir, bydd angen ichi ymaelodi gydag Ymddiriedolaeth John Muir fel Aelod grŵp. Bydd yr Aelodaeth Grŵp ar gyfer eich mudiad ac mae'n ymdrin â holl arweinwyr a gweithgareddau'r Wobr yn ystod y tanysgrifiad blwyddyn. Dysgu mwy yma [johnmuirtrust.org/join](http://johnmuirtrust.org/join)

## 3. Cynllunio eich gweithgaredd ar gyfer y Wobr

Lluniwch gynllun gweithgaredd sy'n sicrhau caiff holl feini prawf y Wobr ei fodloni. Cofiwch gynllunio eich bod yn treulio o leiaf chwarter yr amser gweithgaredd ar yr Her Cadwraeth.

*I sicrhau bod y broses yn fwy rhwydd, beth am lunio copi drafft o'ch ymatebion mewn dogfen Word cyn cyflwyno'r cais.*

## 4. Cyflwyno Ffurflen Gais

Cwblhau a chyflwyno Ffurflen Gais ar y we o leiaf pythefnos CYN ichi gychwyn ar weithgarwch y Wobr, gan gynnwys manylion am:

- Amserlen arfaethedig
- Nifer o sesiynau
- Sut bydd y grŵp yn bodloni pob meini prawf y Wobr

## 5. Aros am gadarnhad

Unwaith caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwch yn derbyn:

- Cadarnhad e-bost
- Rhif cyfeirnod unigryw (defnyddiwch y rhif hwn yn yr holl ddeunydd cyfathrebu am eich grŵp os gwelwch yn dda).

Os nad ydy eich cais yn bodloni'r meini prawf, byddwn yn darparu adborth a chymorth i'ch helpu i'w adolygu.

\*\*Os ydych chi'n cwblhau'r Wobr fel unigolyn neu deulu, cysylltwch gyda ni drwy e-bostio [award@johnmuirtrust.org](mailto:award@johnmuirtrust.org)

## 6. Cadw Cofnodion

Cofiwch gadw cofnodion manwl o weithgaredd eich grŵp ar gyfer y Wobr. I ddeall beth yn union sydd ei angen, edrychwch ar y Ffurflen Adolygu cyn ichi gychwyn.

Gallai'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y Wobr ddefnyddio Llyfr Cofnodion i gadw llygaid ar eu cynnydd eu hunain. Gallwch lawr lwytho ac argraffu'r llyfr o'n gwefan, neu ei archebu fel copi ar bapur am £3 yr un. Mae'r Llyfr Cofnodion er defnydd personol yn unig ac nid oes angen ichi ei ddychwelyd at dîm y Wobr.

## 7. Cyflwyno'r Ffurflen Adolygu

Unwaith ichi gwblhau holl weithgareddau'r Wobr, cyflwynwch y Ffurflen Adolygu, gan ddarparu:

- Gwybodaeth helaeth am eich gweithgareddau
- Enwau'r rheiny wnaeth gymryd rhan (gofalwch eu bod wedi'u sillafu'n gywir ar gyfer y tystysgrifau).

Caiff tystysgrifau digidol eu darparu ar e-bost yn rhad ac am ddim. Os ydy hi'n well gennych chi dderbyn copïau o safon ar bapur, gallwch archebu'r rhain unwaith y bydd eich Ffurflen Adolygu wedi'i chymeradwyo. Mae'r tystysgrifau'n £2 yr un. Sylwch mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan mewn grŵp dderbyn naill ai tystysgrifau ar e-bost neu ar bapur.

Os oes angen tystysgrif newydd arnoch, byddwn yn codi am gopïau digidol ac ar bapur. E-bostiwch [award@johnmuirtrust.org](mailto:award@johnmuirtrust.org).



# Cynhwysiant a'r Wobr John Muir

Prif nod sydd gan y Wobr John Muir yw sicrhau nad yw amgylchiadau yn rhwystr rhag gallu mwynhau mannau gwyllt, gan ofalu eu bod yn hygyrch i bawb.

Ledled y DU, mae cannoedd o fudiadau'n helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau strwythurol yn eu bywydau dydd i ddydd i ddefnyddio'r Wobr John Muir i amddiffyn, adfer a diogelu mannau gwyllt. Hoffem ddeall yn well y rhwystrau y mae Darparwyr Gwobr yn ceisio eu goresgyn a byddwn yn gofyn ichi ddweud ychydig mwy am eich grŵp pan fyddwch yn ymgeisio. Mae hyn i'n helpu ni i sicrhau bod y Wobr yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch.

Caiff y Wobr ei defnyddio ledled ystod eang o sectorau sy'n hyrwyddo cynhwysiant. Gallai fod yn adnodd i helpu mudiadau i fanteisio ar a chydweithio gyda chynulleidfaoedd sy'n anodd cysylltu gyda nhw ar draws sefydliadau amrywiol o erddi bywyd gwyllt yng nghanol dinasoedd i gymunedau ynysig.

Os hoffech chi wybod mwy am sut i ofalu bod y Wobr yn fwy hygyrch, darllenwch ein hadnodd Cynhwysiant neu cysylltwch gyda ni i drafod eich achos penodol.







## Ble i ganfod mwy o wybodaeth ac ysbrydoliaeth

**Oes gennych chi ragor o gwestiynau?**  
Edrychwch ar ein Cwestiynau Cyffredin

Mae digonedd o adnoddau  
defnyddiol ar dudalennau'r  
Wobr ar ein gwefan gan gynnwys  
astudiaethau achos, canllawiau adnoddau  
a chymorth i athrawon. Gallwch hefyd  
ddod o hyd i ddyddiadau hyfforddiant a  
gwybodaeth ar [johnmuirtrust.org/award](http://johnmuirtrust.org/award)

**Dal methu dod o hyd i beth sydd ei  
angen arnoch?**

Cysylltwch gyda ni ar [award@  
johnmuirtrust.org](mailto:award@johnmuirtrust.org)

